
# Canllaw Dy Ddiwrnod Ymweld i Ymgeiswyr



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Sefydlwyd yn 1872

# Eich amserlen Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr

| Amser | Sgwrs / Gweithgaredd / Taith | Lleoliad |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Yn ystod eich diwrnod, neilltuwch amser i:

- ☐ Gofrestru yng Nghanolfan y Celfyddydau, Campws Penglais
- ☐ Alw heibio i'r Ffair Wybodaeth
- ☐ Fynychu sgyrsiau cyffredinol a theithiau
- ☐ Ymweld â'ch Adrannau Academaidd
- ☐ Archwilio'r campws a'r dref
- ☐ Ddarganfod mwy am lety'r Brifysgol



# Croeso i Brifysgol Aberystwyth

Rwy'n falch iawn o'ch croesawu i'n campws a gobeithio y bydd eich ymweliad heddiw yn cadarnhau pam y dylech ddewis astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth. Gobeithio y cewch weld y gwerth rydyn ni'n ei roi ar greu cymuned gyfeillgar a chefnogol ac y byddwch yn gadael gyda syniad clir o'r hyn i'w ddisgwyl pe baech chi'n penderfynu astudio yma.

Yn Aberystwyth, rydym wedi ymrwymo i newid bywydau er gwell - bywydau'r rhai yr ydyn ni'n gweithio gyda nhw drwy ein hymchwil, y staff sy'n gweithio yma, ac wrth gwrs y myfyrwyr sy'n dewis astudio gyda ni.

Yn Aberystwyth, rydym yn darparu addysg ragorol a phrofiad eithriadol i fyfyrwyr. Mae gan y Brifysgol enw ardderchog am y ddau, ac mae'n gyson ymhlith y prifysgolion gorau yn y tablau cynghrair swyddogol. Mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr diweddaraf yn ein gosod ar y brig yng Nghymru o ran bodlonrwydd myfyrwyr ar gyfer y degfed flynedd yn olynol.

Campws Penglais yw calon bywyd myfyrwyr yn Aberystwyth, lle mae eich darlithoedd, eich llety, Undeb y Myfyrwyr a'r Ganolfan Chwaraeon o fewn cyrraedd hwylus. Byddwch yn dod yn rhan o gymuned agos, gefnogol a chyfeillgar o staff a myfyrwyr, sydd wedi ymrwymo i sicrhau eich bod chi'n ymgartrefu ac yn gwneud y gorau o'ch amser yma.

Byddwch hefyd yn astudio yn un o leoliadau mwyaf trawiadol y DU. Mae ein harfordir a'r mynyddoedd yn gefndir i fywyd myfyrwyr, ond maent hefyd yn rhan bwysig o'r profiad dysgu. Mae llawer o gyrsiau yn manteisio ar yr amgylchedd naturiol amrywiol hwn, gydag addysgu a theithiau maes yn digwydd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Yn ogystal, enwyd Aberystwyth yn Ddinas Llên UNESCO gyntaf Cymru yn ddiweddar, gan adlewyrchu'r amgylchedd diwylliannol ffyniannus a fydd yn dod yn gartref i chi.

Fel un o raddedigion Aberystwyth, gallaf dystio i allu unigryw'r Brifysgol i ysbrydoli a chyfareddu, ac rwy'n gobeithio y bydd heddiw yn rhoi ymdeimlad i chi o'r profiad y byddwch chi'n ei gael fel myfyriwr yma. Cymerwch yr holl amser sydd ei angen arnoch i grwydro'r campws ac ymweld â'n cyfleusterau, ein llety a'n mannau cymdeithasol. Byddwch yn treulio amser yn eich adran academaidd yn dysgu mwy am eich cwrs, ac yn cael cyfle i sgwrsio â staff a myfyrwyr. Rwyf hefyd yn cynnal sesiwn galw heibio a byddwn wrth fy modd yn cwrdd â chi wyneb yn wyneb ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Rwy'n gobeithio y bydd heddiw yn rhoi ymdeimlad i chi o'r gymuned gynnes a chroesawgar sydd yma i bob myfyriwr sy'n dewis astudio yma.

**Yr Athro Jon Timmis**
**Is-Ganghellor**

# Eich Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr ym Mhrifysgol Aberystwyth

**Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu i'n Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr. I wneud pethau ychydig yn haws, byddwn yn cyfrannu tuag at eich costau pan fyddwch chi'n dod i'n gweld.**

**I'ch atgoffa, bydd pob ymgeisydd:**

- yn cael taleb cinio yn ystod y Diwrnod Ymweld;
- yn gallu hawlio cyfraniad tuag at eu costau ymweld, hyd at uchafswm o £65 (yn seiliedig ar bellter taith un ffordd rhwng cod post cartref yr ymgeisydd ac un o godau post penodol y Brifysgol):

| | |
|---|---|
| Llai na 75 milltir | £15.00 |
| 75 - 174 milltir | £35.00 |
| Dros 175 milltir | £65.00 |

Bydd rhagor o wybodaeth am sut i hawlio cyfraniad tuag at eich costau ymweld yn cael ei hanfon atoch drwy e-bost yn dilyn eich ymweliad.

Mae gwybodaeth am y cyfraddau cyfrannu ar gael ar ein tudalen gwe: aber.ac.uk/dy/cymorth



### Cyfle i ennill taleb £100 Amazon

Gadewch i ni wybod eich barn am ein Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr.

Byddwn mewn cysylltiad drwy e-bost wedi'r digwyddiad i gasglu eich adborth. Cwblhewch ein harolwg ar-lein am gyfle i ennill.

## Pwynt Cofrestru

**Canolfan y Celfyddydau**
Campws Penglais, SY23 3DE (2)

Ar ôl cyrraedd, gwnewch eich ffordd i Ganolfan y Celfyddydau lle bydd ein tîm croeso yn eich cofrestru, ac yn cynnig cyngor ar sut i wneud y gorau o'ch ymweliad. Bydd ein desgiau cofrestru ar agor o 09:00

## Adrannau

Mae rhagor o wybodaeth am raglen eich adran yn ystod y Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr ar gael yma: aber.ac.uk/dy/rhaglen neu drwy sganio'r cod QR uchod.

## Ffair Wybodaeth

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am astudio yn Aberystwyth, bydd staff ar gael yn y Ffair Wybodaeth, sydd wedi'i lleoli yn llyfrgell Hugh Owen, i ateb cwestiynau am lety; eich cais; cymorth i fyfyrwyr (gan gynnwys hygyrchedd a chyllid); ffioedd a chyllid; cyfleoedd byd-eang; gyrfaoedd a mwy.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: aber.ac.uk/dy/rhaglen

Bydd ein llysgenhadon yn y crysau-t melyn ar gael trwy gydol y dydd i ateb unrhyw ymholiadau ac i roi cyfarwyddiadau i chi!

Croeso i Brifysgol Aberystwyth

# Teithio, Cyrraedd a Pharcio

### Campws Penglais

**SY23 3BY**

**Teithio mewn car**
Cyrhaeddwch y brif fynedfa ar Gampws Penglais lle bydd arwyddion i'ch cyfeirio at y meysydd parcio.

Bydd parcio am ddim.

**Teithio ar drên**
Bydd bysiau yn cyfarfod â'r trenau yng ngorsaf Aberystwyth, ac yn dychwelyd ymwelwyr i'r orsaf ar ddiwedd y dydd. Am fwy o wybodaeth ewch i aber.ac.uk/dy/cwestiynaucyffredin

**Teithio ar fws**
Mae gwasanaeth y National Express i Aberystwyth yn stopio ar y campws. Ar ôl cyrraedd mae croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gwasanaeth Bws Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr rhad ac am ddim rhwng y dref a'r campws yn ystod y Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr.

### Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n tudalennau Cwestiynau Cyffredin: aber.ac.uk/dy/cwestiynaucyffredin

### Yr Ysgol Gelf

**SY23 1NG**

Mae'r Ysgol Gelf wedi'i lleoli yng nghanol y dref, o fewn pum munud o gerdded o'r orsaf dren.

Mae parcio am ddim ar gael, yn ogystal â gwasanaeth bws gwennol am ddim rhwng Campws Penglais a'r Ysgol Gelf. Bydd bysiau'n gadael y campws ar yr awr a hanner awr rhwng 09:30 a 15:30, o brif arhosfan bws y campws, sydd gyferbyn â Dderbynfa'r Brifysgol ger mynedfa Campws Penglais.

### Gwasanaeth bws am ddim

Yn ystod y Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr, bydd gwasanaeth gwennol am ddim yn gweithredu rhwng y dref a Champws Penglais rhwng 09:00 a 16:30.

Galwch draw i'r ddesg groeso yng ngweithfan y Brifysgol (drws nesaf i'r orsaf drenau) i ofyn am fws. Bydd y gwasanaeth yn cychwyn o brif safle bws Campws Penglais lle bydd aelodau staff yno i gynorthwyo gydag ymholiadau.

Bydd gwasanaeth bws hefyd yn gweithredu o'r safle bws ar gampws Penglais i fynd â chi lawr i'r Ysgol Gelf. Cyfeiriwch at raglen yr Ysgol Gelf ar gyfer oriau agor yr adeilad a'r gweithgareddau.

### Cymorth i fyfyrwyr ac ymwelwyr anabl

Os oes gyda chi neu unrhyw un sy'n dod gyda chi anabledd, anawsterau symud neu os oes angen gwneud unrhyw drefniadau penodol ffoniwch +44 (0) 1970 622065 neu cysylltwch â ymgeisydd@aber.ac.uk

Mae Canllawiau Mynediad i adeiladau a llwybrau ym Mhrifysgol Aberystwyth ar gael trwy ein partneriaeth â AccessAble.

Am fwy o wybodaeth ewch i: accessable.co.uk/aberystwyth-university

AccessAble

# Sgyrsiau Canolog, Teithiau ac Ymweliadau

## Sgyrsiau

Mae'r sgyrsiau a gweithgareddau canolog i'w gweld ar ein Rhaglen Ar-Lein, aber.ac.uk/dy/rhaglen neu wrth sganio'r cod QR yma.

## Aber a'r Gymraeg

- **Aber, y Gymraeg a Ti** - Sinema, Canolfan y Celfyddydau 09:20-09:40.
- **Aber, y Gymraeg a Ti** - Pantycelyn 14:45-15:05.

## Sgwrs i Rieni, Gwarcheidwaid a Chefnogwyr

Cynhelir '**Sgwrs gyda'r Is-Ganghellor**' rhwng 14:00-14:30 yn Stiwdio Gron, Canolfan y Celfyddydau.

## Undeb Aber

Dewch draw at y Ddesg Groeso yn Undeb y Myfyrwyr rhwng 09:00 a 16:00 ble bydd aelod o dîm Undeb Aber yn ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych.

Rydym yn darparu amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys dros 150 o glybiau a chymdeithasau, cyfleoedd gwirfoddoli ac arwain yn ogystal â chynnig cyngor annibynnol, cyfeillgar am ddim ar ystod o feysydd.

## Teithiau Campws Penglais

Teithiau Campws dan arweiniad myfyrwyr yn para tua 40 munud. Mae teithiau'n cynnwys ymweliad â Llyfrgell Hugh Owen, Undeb y Myfyrwyr a'r Ganolfan Chwaraeon.

Mae pob adran academaidd yn cynnig teithiau fel rhan o'u rhaglenni.

## Teithiau o'r dref

Bydd bws yn gadael y safle bws am 14:30 a 15:30, ac yn para tua 30 munud.

## Taith Canolfan Chwaraeon

Taith o amgylch y cyfleusterau chwaraeon sydd ar y campws am 14:45, ac yn para tua 30 munud. Man cyfarfod tu allan i'r Ganolfan Chwaraeon. (16)

## Teithiau Llyfrgell

Llyfrgell Hugh Owen yw prif Lyfrgell y Brifysgol sy'n cynnig mannau astudio tawel a grŵp, llyfrau a chyfnodolion ac ystod eang o gyfleusterau ac adnoddau i gefnogi eich astudiaethau.

Teithiau o gwmpas Llyfrgell Hugh Owen yn para tua 30 munud. Teithiau yn gadael o Fynedfa Lefel D, Llyfrgell Hugh Owen am 11:30 a 14:15.





# Llety

## Tai a Phreswylfeydd Agored

Mae amrywiaeth o breswylfeydd ar gael i'w gweld heddiw rhwng 09:00-16:00 ac mae croeso mawr i chi ymweld â ni. Ewch i'n Rhaglen Ar-lein i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein llety: aber.ac.uk/dy/rhaglen

## Fferm Penglais

Er mwyn darganfod mwy am y llety hwn sy'n llety hunan arlwyo gydag adnoddau en suite, ewch i Y Sgubor yn Fferm Penglais.

Yn ystod y Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr, gellir dal Bws Gwennol i ymweld â Fferm Penglais. Bydd y gwasanaeth yn rhedeg drwy'r dydd rhwng prif arhosfan fysiau Campws Penglais ac Y Sgubor, Fferm Penglais (09:30 - 16:00).

Fel arall, gellir cerdded i Fferm Penglais (trwy Bentre Jane Morgan) o Gampws Penglais ar hyd y llwybr dros y bont droed.

## Pentre Jane Morgan

Er mwyn gweld y llety hwn sy'n llety hunan arlwyo gydag adnoddau a rennir, ewch i Dŷ 24, Pentre Jane Morgan.

Yn ystod y Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr, gellir dal Bws Gwennol i ymweld â Phentre Jane Morgan. Bydd y gwasanaeth yn rhedeg drwy'r dydd rhwng prif arhosfan fysiau Campws Penglais ac Y Sgubor, Fferm Penglais, taith gerdded fer o Bentre Jane Morgan (09:30 - 16:00).

Fel arall, gellir cerdded i Bentre Jane Morgan o Gampws Penglais ar hyd y llwybr dros y bont droed.

## Rosser

I ymweld â'r llety en-suite hunanarlwyo hon ewch i'r hwb yn Rosser.

Gellir cerdded i Floc C Rosser neu'r hwb sydd wedi'i leoli ger adeilad Parry Williams ar Gampws Penglais.

## Pantycelyn

(Llety Cymraeg Penodedig)

Er mwyn gweld y llety hwn gyda arlwyo rhannol ac adnoddau en-suite ar gyfer myfyrwyr sydd eisiau byw trwy gyfrwng y Gymraeg, ewch i'r brif fynedfa ym Mhantycelyn.

Fe ellir cerdded i Bantycelyn drwy Gampws Penglais, wrth gerdded heibio'r Ganolfan Ddelweddu ar waelod Campws Penglais.

*i* Efallai y bydd gennych ddiddordeb hefyd mewn mynychu Sgwrs Llety, neu drafod eich ymholiadau wrth y Ddesg Llety yn y Ffair Wybodaeth.

Cymerwch olwg ar ein Rhaglen Ar-lein am ragor o wybodaeth: aber.ac.uk/dy/rhaglen

# Cylchlythyr Aberystwyth i Rieni, Gwarcheidwaid a Chefnogwyr

**Mae mynd i'r brifysgol yn gam mawr i unrhyw unigolyn ifanc, ac rydym yn deall pa mor bwysig yw hi i rieni, gwarcheidwaid a chefnogwyr deimlo'n wybodus ac yn hyderus wrth eu cefnogi yn ystod y camau nesaf tuag at y brifysgol.**

Mae ein cylchlythyr wedi'i gynllunio i gefnogi rhieni, gwarcheidwaid a chefnogwyr drwy gydol taith yr ymgeisydd, gan rannu canllawiau defnyddiol ar benderfyniadau allweddol, dyddiadau cau pwysig, a sut beth yw bywyd myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Sganiwch y cod QR yma i danysgrifio i'r cylchlythyr neu ewch i aber.ac.uk/cylchlythyr-rhieni-gwarcheidwaid

### Sgwrs i Rieni, Gwarcheidwaid a Chefnogwyr: 'Sgwrs gyda'r Is-Ganghellor'

Mae Dyddiau Ymweld i Ymgeiswyr yn gyfle gwerthfawr i rieni, gwarcheidwaid a chefnogwyr brofi'r Brifysgol, archwilio'r adrannau academaidd, a chasglu gwybodaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau.

Bydd yr Is-Ganghellor yn arwain trafodaeth a fydd yn cynnig cipolwg ar weledigaeth academaidd y Brifysgol, profiad y myfyrwyr, a'r gefnogaeth sydd ar gael i helpu myfyrwyr fanteisio'n llawn ar eu hamser yn Aberystwyth.

Cynhelir '**Sgwrs gyda'r Is-Ganghellor**' rhwng 14:00-14:30 yn Stiwdio Gron, Canolfan y Celfyddydau.



# Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

**Ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae ein Gwasanaeth Gyrfaoedd neilltuol yn cefnogi ein myfyrwyr i ehangu eu profiad academaidd, proffesiynol ac ymarferol, gan eu helpu i sefyll allan yn y farchnad swyddi a sicrhau cyflogaeth ystyrlon yn ystod eu hamser yn y brifysgol ac yn y dyfodol.**

Mae ein Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cynnig:

- Cefnogaeth wrth ysgrifennu CV, gwneud ceisiadau swyddi, a pharatoi ar gyfer cyfweliadau
- Cynnal digwyddiadau gyrfa i gysylltu myfyrwyr a phobl sydd yn gyflogedig
- Rhedeg gweithdai ymarferoldeb a'r rhaglen Cymorth i Baratoi am Yrfa
- Canllawio myfyrwyr mewn menter entrepreneuriaeth a busnes
- Cynnig cefnogaeth gyrfa barhaus, hyd bywyd, ar ôl graddio.

Ewch i'n tudalen we i wybod mwy: aber.ac.uk/gyrfaoedd

Croeso i Brifysgol Aberystwyth

# Prydau Bwyd a Lluniaeth

### Campws Heb Arian Parod

Nodwch fod y campws bellach yn gweithredu heb arian parod - rydym yn derbyn taliadau digyswllt yn unig.

### Y Neuadd Fwyd a Starbucks

**Wedi ei leoli wrth brif fynedfa Campws Penglais**
Ar agor 08:00 - 16:00

**Ymunwch â ni am frecwast**
- baps brecwast a myffins ar gael o 08:00

- Bwyd poeth ar gael drwy'r dydd gyda Brecwast Llawn yn cael ei weini tan 11:00.
- Cinio cownter poeth gydag amrywiaeth o gig lleol, bwydydd llysieuol a fegan.
- Prif gyrsiau'r Neuadd Fwyd ar gael 12:00 - 14:30, gan gynnwys pasteiod a thatws trwy'u crwyn.
- Siop goffi Starbucks yn cynnwys amrywiaeth o ddiodydd poeth ac oer, smwddis, cacennau a brechdanau.
- Mae ein bwydlen yn cynnig ystod lawn o fwydydd fegan a heb glwten.

### CAFFIbach

**Wedi ei leoli yn Adeilad Gwendolen Rees, Campws Penglais**
Ar agor 08:45 - 16:00

- Amrywiaeth o goffi barista a gwahanol fathau o de.
- Smwddis ffrwythau ffres a sudd.
- Detholiad o gacennau, brechdanau a byrbrydau.

### Ffreutur, Pantycelyn

**Wedi'i leoli ym Mhantycelyn (tu ôl i'r Ganolfan Ddelweddu), Campws Penglais**
Ar agor 09:30-18:00

- Siop goffi yn gweini diodydd poeth ac oer a dewis o frechdanau a theisennau.

### Bar a Costa yr Undeb

**Undeb Aber**
Ar agor 09:30 - 18:00

- Amrywiaeth o goffi barista a gwahanol fathau o de.
- Tatws trwy'u crwyn, brechdanau a baguettes.

### Cwtch Bar

**Undeb Aber**
Ar agor 11:00-20:00

### Siop Undeb y Myfyrwyr

**Undeb Aber**
Ar agor 09:30 - 16:00

Siop gyfleustra ar y campws, yn cynnwys amrywiaeth o frechdanau, byrbrydau a diodydd.

### Caffi Canolfan y Celfyddydau


**Canolfan y Celfyddydau, Llawr 1af**
Ar agor 08:30 - 20:00

Pob math o fwyd a diod, gan gynnwys: rholiau, brechdanau, cacennau cartref, salad a chacennau. Mae ein bwydlen yn darparu ar gyfer amrywiaeth o anghenion dietyddol, gydag opsiynau llysieuol, feganaidd a di-glwten ar gael.



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Campws Penglais




## Allwedd

- Caffi
- Bwyty
- Parcio i Fyfyrwyr
- Parcio Talu ac Arddangos
- Parcio dros dro
- Parcio i Staff
- Llyfrgell
- Gorsaf gyfrifiaduron
- Campfa
- Siop
- Gwefru Cerbydau Trydan
- Lolfa Astudio
- Safle bysiau

## Ymholiadau

1. **Derbynfa'r Brifysgol**
SY23 3FL

## Adeiladau'r Campws

2. **Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth**
3. **Tai Gwydr Botaneg**
   - Adran y Gwyddorau Bywyd
4. **Adeilad Carwyn James**
   - Canolfan a Labordai Milfeddygol1
   - Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff (Adran y Gwyddorau Bywyd)
5. **Adeilad Cledwyn**
   - Academi Ddoethurol
   - Cofrestrfa Academaidd
   - Cynllunio
   - Datblygiadau a Chysylltiadau Alumni
   - Dysgu Gydol Oes
   - Iechyd a Diogelwch
   - Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr
6. **Adeilad Edward Llwyd**
   - Adran y Gwyddorau Bywyd
7. **Adeilad Hugh Owen**
   - Ieithoedd Modern
   - Gwasanaeth Gyrfaoedd
   - Llyfrgell a Gwasanaethau Gwybodaeth
   - Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol
   - Y Gyfraith a Throseddeg
   - Ysgol Fusnes Aberystwyth
8. **Canolfan Addysg Gofal Iechyd**
9. **Adeilad Gwendolen Rees**
   - CAFFIbach
   - Adran y Gwyddorau Bywyd
10. **Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol**
    - Gwleidyddiaeth Ryngwladol
    - Hanes a Hanes Cymru
11. **Adeilad Llandinam**
    - Canolfan Ôl-raddedigion
    - Canolfan Saesneg Ryngwladol
    - Cyfrifiadureg
    - Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
    - Gwasanaeth Gyrfaoedd
12. **P5**
    - Astudiaethau Gwybodaeth
    - Seicoleg
    - Ysgol Addysg
13. **Adeilad Parry-Williams**
    - Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
    - Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd
14. **Penbryn**
    - Gwasanaethau Croeso
    - Gwasanaethau'r Gymraeg
    - Neuadd Fwyd
    - Swyddfa Cynadleddau
    - Ystafelloedd Medrus
15. **Adeilad Gwyddorau Ffisegol**
    - Ffiseg
    - Llyfrgell Gwyddorau Ffisegol
    - Mathemateg
16. **Canolfan Chwaraeon**
17. **Cawell Chwaraeon**
18. **Canolfan Croesawu Myfyrwyr**
    - Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus
    - Cymorth i Fyfyrwyr
19. **Undeb y Myfyrwyr**
20. **Canolfan Addysg Milfeddygaeth**
    - Ysgol Gwyddor Filfeddygol
21. **Y Ganolfan Ddelweddu**
    - Adnoddau Dynol
    - Canolfan Ddeialog
    - Llywodraethu
    - Swyddfa'r Is-Ganghellor
22. **Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

## Parc Gwyddoniaeth

23. **Uned 12**
    - Swyddfa Gyllid
    - Ymchwil, Busnes ac Arloesi

## Llety

- Cwrt Mawr
- Fferm Penglais
- Pantycelyn
- Pentre Jane Morgan
- Rosser
- Rosser G
- Trefloyne
- Byncws

Sganiwch y cod i weld ein map ar-lein ar eich dyfais
**aber.ac.uk/mapiau**

**Wi-Fi am ddim - 'PAU-Guest'**
Bydd Wi-Fi am ddim ar y campws yn ystod Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr.

**Os bydd argyfwng**
Cysylltwch â aelod staff agosaf ar unwaith.

**Wrth glywed y larwm dân**
Gadewch yr adeilad wrth yr allanfa agosaf, peidiwch â defnyddio'r lifftiau ac arhoswch y tu allan nes i aelod o staff y Brifysgol wybod ei bod yn ddiogel fynd yn ôl mewn.

**Os gallwch weld, clywed neu deimlo tân**
Gweithredwch a bydd yn ofynnol i chi adael yr adeilad fel y nodir uchod.

**Cwestiynau cyffredinol**
Gallwch ddod o hyd i gwestiynau cyffredin am y Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr yma **aber.ac.uk/dy/cwestiynaucyffredin**

**Campws Heb Arian Parod**
Nodwch fod y campws bellach yn gweithredu heb arian parod - rydym yn derbyn taliadau digyswllt yn unig.

I gael rhagor o wybodaeth am y Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr, cysylltwch â:

**aber.ac.uk**

**ymgeisydd@aber.ac.uk**

**+44 (0)1970 62 2065**

Sganiwch y cod QR yma am y Rhaglen Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr neu ewch i:

**www.aber.ac.uk/dy/rhaglen**

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%

Mae'r rhaglen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan Marchnata a Denu Myfyrwyr, Prifysgol Aberystwyth, Chwefror 2026.